

Briff Ymchwil:

Negodiadau ar ymadawiad
y DU â'r UE: Adroddiad
Monitro - 14 Mai 2018



Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
www.cynulliad.cymru/ymchwil

Gellir cael rhagor o gopiâu o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Senedd Ymchwil
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: **0300 200 6219**
E-bost: **Manon.George@assembly.wales**
Twitter: **[@SeneddResearch](https://twitter.com/SeneddResearch)**
Blog: **SeneddResearch.blog**

© **Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2018**

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Briff Ymchwil

Negodiadau ar ymadawiad y DU â'r UE: Adroddiad Monitro - 14 Mai 2018

Awdur: Joseph Champion, Manon George ac Alastair Grey
Dyddiad: Mai 2018
Rhif yr ymholiad: 18-037



Contents

| | |
|--|-----------|
| 1. Cyflwyniad | 1 |
| Crynodeb o'r datblygiadau | 1 |
| 2. Y datblygiadau diweddaraf a'r dogfennau a gyhoeddwyd | 3 |
| Negodiadau | 3 |
| Partneriaeth yn y dyfodol | 6 |
| Bod yn Barod ar gyfer Brexit..... | 8 |
| Cost y Cytundeb Ymadael | 9 |
| Deddfwriaeth y DU..... | 10 |
| Dogfennau a Phapurau Sefyllfa..... | 13 |
| 3. Meysydd allweddol sydd o ddiddordeb i'r Pwyllgor Materion Allanol..... | 43 |
| Paratoi ar gyfer Brexit | 43 |
| Y cyfnod pontio | 44 |
| Goblygiadau Brexit i Gymru | 44 |
| Fframweithiau ar ôl Brexit | 46 |
| Euratom | 47 |
| 4. Ymateb Llywodraeth Cymru | 48 |

1. Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau sy'n ymwneud â Negodiadau Erthygl 50 ynghylch ymadawiad y DU â'r UE ers 16 Ebrill.

Mae'r papur hwn yn rhoi:

- Crynodeb o'r datblygiadau diweddaraf, y dogfennau a'r ddeddfwriaeth a gyhoeddwyd;
- Dadansoddiad o'r materion allweddol sydd o ddiddordeb i'r Pwyllgor Materion Allanol ('y Pwyllgor') a;
- Chrynodeb o ymateb Llywodraeth Cymru i'r datblygiadau diweddaraf.

Crynodeb o'r datblygiadau

- Rhoddodd Mark Drakeford AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid, **dystiolaeth i'r Pwyllgor hwn** ar 16 Ebrill, gan amlinellu gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer perthynas rhwng y DU a'r UE ar ôl Brexit.
- Ar 18 Ebrill, sef diwrnod cyntaf Cyfnod Adrodd y Bil Ymadael â'r UE yn Nhŷ'r Arglwyddi, collodd y Llywodraeth bleidlais ar welliant undeb tollau. Yna, aeth Llywodraeth y DU ymlaen i gollu ar bleidleisiau allweddol mewn perthynas â'r Bil ym mhob un o'r 5 diwrnod dilynol yng Nghyfnod Adrodd y Bil yn Nhŷ'r Arglwyddi.
- Ar 18 Ebrill, cafwyd dadl yn Neuadd San Steffan ar effaith **Brexit ar y gweithlu milfeddygol yng Nghymru.**
- Ar 19 Ebrill, fel rhan o ddechrau ymchwiliad newydd Is-bwyllgor Materion Allanol yr UE yn Nhŷ'r Arglwyddi **i drefniadau tollau ar** ôl Brexit.
- Ar 20 Ebrill, cyhoeddodd y Swyddfa Archwilio Genedlaethol adroddiad, sef **Exiting the EU: The financial settlement.**
- Ar 23 Ebrill, cafwyd araith gan Michel Barnier **yn Ffair Hannover,** gan dynnu sylw at faint y cytundeb masnach rydd yr hoffai'r UE ei gyrraedd gyda'r DU.
- Ar 24 Ebrill, cynhaliodd Pwyllgor Masnach Ryngwladol Tŷ'r Cyffredin sesiwn untro ar **effeithiau economaidd dull Llywodraeth y DU o weithredu polisi masnach.**

- Ar 24 Ebrill, cyhoeddwyd bod Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru wedi dod i **Gytundeb Rhynglywodraethol ar y Bil a Sefydlu Fframweithiau Cyffredin** a newidiadau i Gymal 11 o'r Bil Ymadael. Ar 25 Ebrill, cafwyd datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid **yn y Cyfarfod Llawn** lle nododd fod y cytundeb “yn gam mawr ymlaen o’r cynigion gwreiddiol.”
- Ar 25 Ebrill, **ymddangosodd David Davis gerbron Pwyllgor Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd Tŷ'r Cyffredin** i roi tystiolaeth fel rhan o ymchwiliad y Pwyllgor i gynnydd negodiadau'r DU ar ymadael â'r UE.
- Ar 25 Ebrill, cafwyd araith gan Greg Hands, y Gweinidog dros Bolisi Masnach, ar **Trade and tariffs: Brexit and beyond**.
- Ar 26 Ebrill, cafwyd araith gan Michel Barnier yn **Seminar Lefel Uchel Eurofi 2018** yn canolbwyntio ar botensial cytundeb ar ôl Brexit ar wasanaethau ariannol.
- Ar 27 Ebrill, cyhoeddodd **Llywodraeth y DU a Chomisiwn yr UE** eu bod wedi gofyn i Fanc Canolog Ewrop a Banc Lloegr gynnull gweithgor technegol ar reoli risg yn y cyfnod tua 30 Mawrth 2019 ym maes gwasanaethau ariannol.
- Ar yr un diwrnod, cyhoeddodd yr UE **ragor o hysbysiadau i randdeiliaid ar 27 Ebrill**, fel rhan o'i drefniadau i fod yn barod ar gyfer Brexit.
- Ar 30 Ebrill, cafwyd araith gan Michel Barnier **yn nigwyddiad yr All-Island Civic Dialogue** yn Iwerddon, gan ailadrodd barn yr UE am y mater ynghylch ffin Iwerddon.
- Ar 30 Ebrill, **cynhaliodd Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol y Cynulliad sesiwn graffu** gyda Mr Robin Walker AS, Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol Llywodraeth y DU yn yr Adran Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd, a Chloe Smith AS, Gweinidog y Cyfansoddiad.
- Ar 1 Mai, cafwyd tystiolaeth gan David Davies, yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd, **i Bwyllgor Dethol yr UE Tŷ'r Arglwyddi** ar gynnydd negodiadau Brexit.
- Ar yr un diwrnod, **cyhoeddodd y Gwasanaeth Sifil gynlluniau** i ddatblygu Proffesiwn Masnach Ryngwladol newydd ar draws Whitehall.
- Hefyd ar 1 Mai, clywodd Pwyllgor Materion Cymreig Tŷ'r Cyffredin **dystiolaeth** gan George Eustice AS, Gweinidog Gwladol dros Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd Llywodraeth y DU.

- Ar 3 Mai, cyhoeddwyd bod Llywodraeth y DU a'r Gweinyddiaethau Datganoledig wedi **cytuno ar gynlluniau i gydweithio ar fframweithiau'r DU**.
- Ar 4 Mai, cyhoeddodd Llywodraeth y DU fanylion ar y **pynciau ar gyfer trafodaethau ar Fframwaith y Dyfodol** gyda'r UE yn y cyfarfodydd sydd i ddod.
- Ar 10 Mai, cyhoeddodd Pwyllgor Dethol ar yr UE Tŷ'r Arglwyddi adroddiad ar effaith Brexit ar **brisiau ac argaeledd bwyd**.

2. Y datblygiadau diweddaraf a'r dogfennau a gyhoeddwyd

Negodiadau

Ers dod i gytundeb ar y Cytundeb Ymadael Drafft ar 19 Mawrth, a grybwyllwyd yn yr adroddiad blaenorol, mae'r negodiadau wedi canolbwyntio ar berthynas y DU â'r Undeb Tollau ar ôl Brexit.

Ar 30 Ebrill, cafwyd araith gan Michel Barnier **yn nigwyddiad yr All-Island Civic Dialogue** yn Iwerddon. Er ei fod yn nodi bod yr UE yn barod i edrych yn adeiladol ar bob dewis sy'n ei galluogi i gyflawni ei hamcanion, cadarnhaodd safbwynt yr UE trwy ddweud:

...we all agree that we do not want a border, and since the UK agreed to respect Ireland's place in the Single Market, then that means goods entering Northern Ireland must comply with the rules of the Single Market and the Union Customs Code.

Tynnwyd sylw bod **Prif Weinidog y DU ar 26 Mawrth 2018** wedi nodi bod y safbwynt hwn, a nodir yn y 'backstop solution' yn y Cytundeb Ymadael Drafft yn annerbyniol:

...because they were not in line with Belfast Agreement and threatened the break-up of the UK's internal market. And as such they were not a fair reflection of the Joint Report.

Yn ei araith yn yr All-Island Dialogue, cysylltodd Michel Barnier y mater ynghylch Ffin Iwerddon â'r negodiadau ehangach, gan nodi'r canlynol:

...agreement on the orderly withdrawal, including the backstop for Ireland, will pave the way for constructive negotiations for a broad partnership for

the future – not only on economics and trade, but also on a lot of areas of thematic cooperation

Dywedodd hefyd, 'we need substantive progress on the backstop before the June European Council'.

Cynhaliwyd **cyfres o gyfarfodydd ar faterion sy'n ymwneud ag Iwerddon/Gogledd Iwerddon** rhwng y DU a'r UE rhwng 14 Mawrth a 18 Ebrill 2018. Fodd bynnag, ni chafwyd ateb sy'n dderbyniol i bawb hyd yn hyn.

Safbwynt cychwynnol Llywodraeth y DU ar yr Undeb Tollau oedd awgrymu dau opsiwn posibl ar gyfer trefniadau tollau rhwng y DU a'r UE. Partneriaeth tollau newydd a fyddai'n golygu y byddai'r DU yn casglu cyfraddau tariff yr UE wrth ei ffiniau allanol a system dollau llawer symlach a fyddai'n canolbwyntio ar ddefnyddio atebion technolegol ac eithriadau i fusnesau bach iawn yng Ngogledd Iwerddon i leihau'r angen am wiriadau tollau. Nodwyd yr opsiynau hyn yn ei **bapur polisi a gyhoeddwyd ym mis Awst 2017**.

Fodd bynnag, **adroddwyd yn helaeth am raniadau yn Llywodraeth y DU** o ran hyfywedd y bartneriaeth dollau, gyda rhai uwch Weinidogion Llywodraeth y DU yn ffafrio'r trefniad tollau hynod syml. Byddai'r ddau opsiwn yn cynnwys y DU yn ymadael â'r Undeb Tollau yn ffurfiol a chynigiwyd y ddau i Gomisiwn yr UE.

Mae Politico wedi adrodd bod yr UE yn ystyried bod y ddau opsiwn hyn **yn anymarferol**. Dywedodd David Davies, yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd, yn ei **dystiolaeth i Bwyllgor Dethol ar yr UE Tŷ'r Arglwyddi ar 1 Mai**:

The Commission pushed back on both. The bases of the push-backs were slightly different. The Commission was concerned, on the one hand, about how the new customs partnership would be run. On the other hand, in the context of Northern Ireland, it objected to the notion of exempting small businesses from the streamlined arrangement.

Awgrymodd hefyd mai diffyg Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon oedd yn gwneud y negodiadau ar y ffin yn llawer anoddach nag y byddai fel arall, gan ddadlau:

...some of the solutions that we have in mind are really only doable by a Northern Ireland Executive, not by a UK Government, because of the need for local sensitivities on this.

Cyn y cyfarfod hwn, ar 25 Ebrill, **ymddangosodd David Davis gerbron Pwyllgor Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd Tŷ'r Cyffredin** i roi tystiolaeth fel rhan o ymchwiliad parhaus y Pwyllgor i gynnydd negodiadau'r DU ar ymadael â'r UE.

Amlinellodd ei farn mai gwrthodiad y Comisiwn o gynlluniau tollau'r DU oedd ei safbwynt negodi ac ymrwymodd i fynd yn ôl ac ymdrin â'r rheini mewn trafodaethau.

Mynegwyd pryderon busnes y DU ynghylch cael mynediad at yr Undeb Tollau ar 19 Ebrill, fel rhan o ddechrau ymchwiliad newydd Is-bwyllgor Materion Allanol yr UE yn Nhŷ'r Arglwyddi **i drefniadau tollau** ar ôl Brexit. Wrth roi tystiolaeth i'r Ymchwiliad, dywedodd **James Hookham**, Dirprwy Brif Swyddog Gweithredol y Sefydliad Trafnidiaeth Cludo Nwyddau:

...with the Government's stated intention of leaving the customs union and the Single Market, we are concerned—and, indeed, vocal—on behalf of our members about the potential impact of that decision on the continuity of supply chains". When asked about the impact of Brexit on small business trading with EU 27 countries, Mr Hookham said that "I fully take your point that a lot of smaller businesses could simply decide that the costs, challenges and inconvenience introduced by a hard customs border are simply not worth the effort and will cease to trade with their customers in Europe, which would be a retrograde step.

Ar 30 Ebrill, **cynhaliodd Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol y Cynulliad sesiwn graffu** gyda Mr Robin Walker AS, Is-ygrifennydd Gwladol Seneddol Llywodraeth y DU yn yr Adran Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd, a Chloe Smith AS, Gweinidog y Cyfansoddiad. Yn ystod y sesiwn, tynnodd Mr Walker sylw at y ffaith y bydd Llywodraeth y DU yn gwneud y canlynol:

...of course seek to negotiate a new arrangement between the UK and the EU that will allow for frictionless and tariff-free market access, and I think it's welcome that the EU's negotiating guidelines include that aspiration of no tariff barriers and frictionless arrangements with regard to the border.

Yn ystod y sesiwn gyda Phwyllgor Dethol ar yr UE Tŷ'r Arglwyddi ar 1 Mai, dywedodd yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd, o ran cwblhau'r Cytundeb Ymadael Drafft:

...we are at 75%, but the last 25% is the hardest...The outstanding areas that are not locked down are obviously Northern Ireland, which people know about, some elements of the remaining separation issues, which I will come back to in a second, and the governance of the agreement.

Nododd fod Llywodraeth y DU yn disgwyl penderfyniad o'r materion gwahanu¹ erbyn mis Mehefin, ond ei fod yn anelu at ddatrys yr holl faterion erbyn mis Hydref. Fodd bynnag, aeth ymlaen i nodi na allwch fyth fod yn siŵr y byddwch yn cyrraedd y targedau hynny, gan mai trafodaeth ydyw.

Y mater o ran llywodraethu yw'r anghytundeb ynghylch pwy ddylai ganoli wrth ddatrys anghydfodau ar y Cytundeb Ymadael. Mae'r UE am i Lys Cyfiawnder Ewrop gael rôl, ond dywedodd yr Ysgrifennydd Gwladol wrth Bwyllgor Dethol ar yr UE Tŷ'r Arglwyddi na fydd yn caniatáu i Lys Cyfiawnder Ewrop gael mynegi barn y tu mewn i'r DU. Yn lle hynny, tynnodd sylw at opsiwn a ffeirir Llywodraeth y DU ar gyfer Cydbwyllgor a rhywbeth tebyg i bwyllgorau cymorth arbenigol gydag aelodau o Oruchaf Lys y DU a Llys Cyfiawnder Ewrop.

Ym mis Ebrill, cyhoeddodd Cymdeithas Hansard nodyn ymchwil o'r enw **Brexit: Parliament's Five Transition Tasks**. Mae hyn yn nodi'r goblygiadau technegol i Senedd o'r cyfnod pontio a fydd yn dilyn ymadawiad ffurfiol y DU â'r UE ym mis Mawrth 2019, sy'n gweithredu fel rhestr o bethau i'r Senedd eu gwneud yn ystod y cyfnod pontio.

Partneriaeth yn y dyfodol

Ddiwedd mis Ebrill, cafwyd dwy araith gan Michel Barnier a oedd yn amlinellu rhai o syniadau'r UE ynghylch y bartneriaeth yn y dyfodol rhwng y DU a'r UE. Ar 23 Ebrill, cafwyd **araith ganddo yn Ffair Hannover** yn tynnu sylw at faint y cytundeb masnach rydd yr hoffai'r UE ei gyrraedd gyda'r DU. Hoffai gytundeb sy'n arwain at y canlynol:

- Dim tariffau a dim cyfyngiadau meintiol ar nwyddau;
- Cydweithrediad tollau i helpu nwyddau i groesi'r ffin;
- Rheolau i gyfyngu ar rwystrau technegol i fasnachu a gwarchod diogelwch bwyd [mesurau i sicrhau iechyd (pobl) anifeiliaid a phlanhigion];
- Fframwaith ar gyfer cydweithrediad rheoleiddiol gwirfoddol i annog cydgyfeiriant rheolau;
- Marchnad agored ar gyfer gwasanaethau, lle mae gan gwmnïau o'r parti arall yr hawl i sefydlu a mynediad at y farchnad i ddarparu gwasanaethau o dan reolau'r wlad letyol;

¹ Rhestrodd y Gweinidog: eiddo deallusol, tollau, TAW, Euratom, caffael cyhoeddus, a chydweithrediad parhaus ar faterion sifil a masnachol fel y materion gwahanu.

- Mynediad at farchnadoedd caffael cyhoeddus, buddsoddiadau a diogelu hawliau eiddo deallusol;
- Darpariaethau uchelgeisiol ar symudiad pobl, gan gwmpasu cydlynu nawdd cymdeithasol a chydabod cymwysterau proffesiynol;
- Cydweithrediad economaidd-gymdeithasol, gan gynnwys cytundeb cludiant awyr a chyfranogiad y DU yn rhaglenni'r UE, megis y rhai sy'n ymwneud ag ymchwil ac arloesedd; a
- Rheolau sy'n dderbyniol i bawb ar lif data a data personol.

Ond mae'n rhybuddio bod hyn yn dibynnu ar y DU a'r UE yn cyrraedd tir cyffredin ar gystadleuaeth a chymorth gwladwriaethol, safonau cymdeithasol ac amgylcheddol, a gwarantau yn erbyn dadlwytho treth.

Yn dilyn hyn, cafwyd araith gan Michel Barnier ar 26 Ebrill yn **Seminar Lefel Uchel Eurofi 2018**. Canolbwyntiodd hyn ar y potensial ar gyfer cytundeb ar ôl Brexit ar wasanaethau ariannol. Fel rhan o'r araith honno, pwysleisiodd:

Theresa May has clarified that the UK is not looking for passporting. It is positive that there is now more recognition of the cost of Brexit for the UK... But the UK also needs to understand that the EU cannot accept mutual market access without the common safeguards that underpin it...

Dadleuodd na fydd yr UE yn gallu cynnal sefydlogrwydd ariannol, diogelwch buddsoddwyr, uniondeb y farchnad a chwarae teg os digwydd y canlynol:

...financial institutions could operate in the EU, or serve clients in the EU, based on an authorisation by the supervisors of a third country, subject to the rules, supervision and enforcement mechanisms of this third country alone.

Fodd bynnag, dywedodd Michel Barnier na wahaniaethir yn erbyn y DU ar ôl Brexit ac y dylai'r DU geisio ymgysylltu â **chynllun cyfwerth ariannol yr UE**, y mae gwledydd eraill, megis Unol Daleithiau America, yn ei wneud ar hyn o bryd.

Yn ei dystiolaeth i **Bwyllgor Dethol ar yr UE Tŷ'r Arglwyddi ar 1 Mai**, atebodd yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd gwestiynau ynghylch y berthynas yn y dyfodol rhwng y DU a'r UE. Yn ei ymatebion, tynnodd sylw at farn Llywodraeth y DU y dylid gallu cyflawni partneriaeth yn y dyfodol yn hwylus oherwydd:

...we start, uniquely in terms of international trade agreements, with identity and with no product differentiation between us.

Fodd bynnag, roedd hefyd yn cydnabod bod her wrth gysoni dau fater anghyson:

...on the one hand, we want to give back control—we want Parliament to decide what the future regulations should be. On the other hand, we want to maintain alignment in outcome terms with the European Union and give it the confidence that it will not be undercut in some way.

Ar 4 Mai, cyhoeddodd Llywodraeth y DU fanylion ar y **pynciau ar gyfer trafodaethau ar Fframwaith y Dyfodol mewn cyfarfodydd sydd i ddod**, sy'n adlewyrchu'r ystod o feysydd y bydd y DU a'r UE yn eu trafod wrth feithrin eu perthynas yn y dyfodol ar ôl ymadael â'r UE. Nid yw'n cynnwys manylion o ran pryd y caiff y cyfarfodydd hyn eu cynnal.

Bod yn Barod ar gyfer Brexit

Ar 27 Ebrill, cyhoeddodd **Llywodraeth y DU** a **Chomisiwn yr UE** eu bod wedi gofyn i Fanc Canolog Ewrop a Banc Lloegr gynnwys gweithgor technegol ar reoli risg yn y cyfnod tua 30 Mawrth 2019 ym maes gwasanaethau ariannol. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru yn nodi'r canlynol:

This technical work is separate from the on-going negotiations on the Withdrawal Agreement between the EU and the UK and from the negotiations on the overall understanding of the framework for the future relationship between the EU and the UK.

Mae'r DU wedi gwneud nifer o gyhoeddiadau mewn perthynas â'i chynlluniau i hybu masnach y DU ar ôl Brexit yn y cyfnod adrodd hwn. Ar 25 Ebrill, cafwyd araith gan Greg Hands, y Gweinidog dros Bolisi Masnach, ar **Trade and tariffs: Brexit and beyond**.

Yn yr araith honno, amlinellodd y Gweinidog uchelgeisiau a chamau gweithredu masnachol yr adran nad ydynt yn ymwneud â'r UE. Er mwyn datblygu masnach ryngwladol y tu allan i'r UE, mae Llywodraeth y DU wedi sefydlu gweithgorau masnach gydag 21 o wledydd ac mae'n ceisio trosglwyddo'r 40 (neu oddeutu hynny) o gytundebau masnach sydd ar waith gan yr UE â thrydydd gwledydd i gyfraith y DU. Adroddodd hefyd fod Llywodraeth y DU yn gweithio i sicrhau bod ganddi ei hatodlenni tariffau ei hun ar gyfer Sefydliad Masnach y Byd ac y bydd Llywodraeth y DU yn llais ar gyfer masnach rydd yn Sefydliad Masnach y Byd a fforymau rhyngwladol eraill.

Ar 1 Mai, **cyhoeddodd y Gwasanaeth Sifil gynlluniau** i ddatblygu Proffesiwn Masnach Ryngwladol newydd ar draws Whitehall i gefnogi Crawford Falconer, Prif Gyngorydd Negodiadau Masnachol y Llywodraeth. Y diwrnod canlynol, 2 Mai, rhoddodd y Gwir Anrhydeddus Greg Hands, **araith ar trade policy townhall** i randdeiliaid busnes a rhanddeiliaid y trydydd sector. Yn y cyfarfod hwn, dywedodd y Gweinidog fod ei adran wrthi'n llunio Strategaeth Allforio newydd i hybu allforion y DU. Ailadroddodd hefyd sail resymegol Llywodraeth y DU dros ymadael ag Undeb Tollau'r Undeb Ewropeaidd.

Cynhaliodd Pwyllgor Masnach Ryngwladol Tŷ'r Cyffredin sesiwn untro ar **effeithiau economaidd dull Llywodraeth y DU o weithredu polisi masnach** ar 24 Ebrill. Clywyd tystiolaeth lafar gan saith tyst o brifysgolion a melinau trafod gwahanol, gan gynnwys Patrick Minford o Brifysgol Caerdydd.

Fel rhan o'i drefniadau i fod yn barod ar gyfer Brexit, mae'r UE wedi cyhoeddi **mwyo hysbysiadau i randdeiliaid ar 27 Ebrill**, gan gynnwys ar y farchnad ynni fewnol, tystysgrifau amddiffyn ar gyfer cynhyrchion diogelu meddyginiaethol a phlanhigion, rheolau ym maes sefydliadau ar gyfer darpariaeth ymddeoliad galwedigaethol.

Cost y Cytundeb Ymadael

Ar 20 Ebrill, cyhoeddodd y Swyddfa Archwilio Genedlaethol adroddiad **Exiting the EU: The financial settlement**. Adolygodd y Swyddfa Archwilio Genedlaethol amcangyfrif Llywodraeth y DU mai oddeutu £35-39 biliwn fydd y setliad ariannol y bydd y DU yn atebol i'w dalu wrth ymadael â'r UE, o ganlyniad i'r Cytundeb Ymadael drafft. Un o'r casgliadau oedd:

...that the range of uncertainties were not fully reflected in HM Treasury's estimate. This means relatively small changes in events could push the cost of the settlement outside HM Treasury's published range...We have identified a number of issues HM Treasury will need to consider to ensure that the interests of the UK taxpayer are protected as it implements the settlement.

Clywyd tystiolaeth lafar gan Syr Amyas Morse, Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol, awdur yr adroddiad, i **Bwyllgor Trysorlys Tŷ'r Cyffredin ar 24 Ebrill**, fel rhan o ymchwiliad y Pwyllgor i **berthynas economaidd y DU â'r Undeb Ewropeaidd** a chlywyd tystiolaeth lafar gan swyddogion pwysig y trysorlys megis Tom Scholar, yr Ysgrifennydd Parhaol, ar yr adroddiad i **Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Tŷ'r Cyffredin ar 23 Ebrill**. Yn ei dystiolaeth i Bwyllgor Dethol ar yr UE Tŷ'r Arglwyddi, y tynnwyd sylw ati uchod, nododd David Davies y bydd y costau ymadael yn cael eu talu fesul cam dros rai blynnyddoedd.

Deddfwriaeth y DU

Daeth Cyfnod Adrodd Tŷ'r Arglwyddi ar gyfer **Bil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael)** i ben ar 8 Mai, ar ôl 6 diwrnod. Bu Aelodau Tŷ'r Arglwyddi yn trafod gwelliannau Llywodraeth y DU a darpariaethau datganoli eraill ddydd Mercher 2 Mai, sef pumed diwrnod y Cyfnod Adrodd. Bydd y Bil bellach yn cael Trydydd Darlleniad ar 16 Mai cyn dychwelyd i Dŷ'r Cyffredin er mwyn ystyried y gwelliannau a wnaed gan Dŷ'r Arglwyddi.

Ar 24 Ebrill, cyhoeddwyd bod Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru wedi dod i gytundeb ar newidiadau i Gymal 11 o'r Bil Ymadael. Cyflwynwyd **gwelliannau** i'r Bil ei hun ac mae Llywodraeth y DU hefyd wedi cyhoeddi **Cytundeb Rhynglywodraethol ategol ar y Bil a Sefydlu Fframweithiau Cyffredin**. Mae'r Cytundeb hwn yn nodi ymrwymïadau ychwanegol ar sut y bydd y gwelliannau'n gweithio'n ymarferol.

Derbyniwyd y gwelliannau datganoli a gyflwynwyd gan yr Arglwydd Callanan ar ran Llywodraeth y DU heb eu rhannu gan Aelodau Tŷ'r Arglwyddi.

Gwrthododd Llywodraeth yr Alban ymuno â'r cytundeb rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU. Mewn **datganiad** gan Michael Russell, Gweinidog yr Alban dros Drafodaethau'r DU ar Sefyllfa yr Alban yn Ewrop, mae'n dweud nad yw Llywodraeth yr Alban yn gallu cefnogi unrhyw gynnig a fyddai'n arwain at gyfyngu ar bwerau Senedd yr Alban heb gytundeb Senedd yr Alban. Mewn llythyr at Brif Weinidog y DU, nododd Prif Weinidog yr Alban ddwy ffordd bosibl ymlaen, gan gynnwys dileu cymal 11 o'r Bil neu osod gofyniad am ganiatâd Senedd yr Alban ar wyneb y Bil, nid yw'r ddwy lywodraeth wedi dod i gytundeb hyd yn hyn.

Mae'r gwelliannau y cytunwyd arnynt rhwng Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru, yn troi cymal 11 o chwith, trwy roi rhyddid i'r deddfwrfeydd datganoledig ddeddfu ar unrhyw faes o fewn eu pwerau, yn hytrach na gosod cyfyngiad cyffredinol ar gymhwysedd deddfwriaethol. Fodd bynnag, mae'r gwelliannau y cytunwyd arnynt yn rhoi pwerau i Weinidogion y DU wneud rheoliadau sy'n gosod cyfyngiadau mewn meysydd datganoledig. Bydd y pŵer hwn i wneud rheoliadau sy'n gosod cyfyngiadau'n para am hyd at ddwy flynedd ar ôl y diwrnod ymadael a gall y cyfyngiadau eu hunain barhau am hyd at bum mlynedd.

Mae'r Cytundeb Rhynglywodraethol yn nodi mai'r meysydd sy'n debygol o fod yn ddarostyngedig i gyfyngiadau a osodir gan Weinidogion y DU yw'r rhai y nodwyd ei bod yn debygol y bydd angen fframweithiau deddfwriaethol arnynt yn y **dadansoddiad o fframweithiau** a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y DU. Mae'r ddogfen yn rhestru 24 maes polisi lle mae Llywodraeth y DU o'r farn y gall fod angen fframweithiau deddfwriaethol. Mae'r Cytundeb Rhynglywodraethol hefyd yn nodi'r canlynol:

Mae'n bosibl y bydd rhai meysydd ychwanegol y mae Llywodraeth y DU yn credu eu bod yn cael eu cadw yn ôl, ond sy'n destun trafodaethau parhaus rhwng y llywodraethau, hefyd yn ddarostyngedig i reoliadau cymal 11.

Rhaid i reoliadau sy'n gosod cyfyngiadau ar bwerau'r Cynulliad gael eu gosod mewn drafft a'u cymeradwyo gan Senedd y DU, ond dim ond ar ôl i'r Cynulliad wneud penderfyniad cydsynio mewn perthynas â gosod y drafft neu ar ôl i 40 diwrnod fynd heibio heb i'r Cynulliad wneud penderfyniad. Mae penderfyniad cydsynio yn cynnwys penderfyniad i beidio â chytuno ar osod y drafft na phenderfyniad i wrthod caniatâd, sy'n golygu y gellir gosod cyfyngiadau ar bwerau'r Cynulliad heb ei ganiatâd. Yn y fath achosion, rhaid i Lywodraeth y DU esbonio pam ei bod wedi penderfynu gosod y drafft o gwbl. Rhaid iddi hefyd osod unrhyw ddatganiad a roddir gan Weinidogion Cymru sy'n nodi eu barn ynghylch pam mae'r Cynulliad wedi gwneud y penderfyniad hwnnw.

Er gwaethaf y gwelliannau y cytunwyd arnynt sy'n galluogi Gweinidogion y DU i dderbyn rheoliadau sy'n gosod cyfyngiadau ar gymhwysedd deddfwriaethol heb ganiatâd y Cynulliad, mae'r Cytundeb Rhynglywodraethol yn nodi na ofynnir i Senedd y DU fel arfer gymeradwyo cyfyngiadau cymal 11 heb gydsyniad y deddfwrfeydd datganoledig.

Mae'r gwelliannau hefyd yn galluogi Gweinidogion y DU i ddiddymu'r pŵer i osod cyfyngiadau ar gymhwysedd y Cynulliad a'i gwneud yn ofynnol i Weinidogion y DU adrodd i Senedd y DU bob tri mis ar y cyfyngiadau sydd ar waith. Rhaid i Weinidogion y DU hefyd roi copi o bob adroddiad a osodwyd gerbron y Senedd i Weinidogion Cymru.

O ran deddfu ar gyfer Lloegr mewn meysydd sy'n destun cyfyngiadau yng Nghymru, mae'r Cytundeb Rhynglywodraethol yn nodi bod Llywodraeth y DU yn ymrwymo i beidio â chyflwyno deddfwriaeth yn y meysydd hynny cyhyd â bo'r cyfyngiadau mewn grym.

Cytunwyd hefyd ar welliannau datganoli eraill a gyflwynwyd gan Lywodraeth y DU yn ystod Cyfnod Adrodd Tŷ'r Arglwyddi, er enghraifft, gwelliannau i Atodlen 2 i alluogi Gweinidogion Cymru i ddiwygio cyfraith yr UE a ddargedwir sy'n uniongyrchol gymwys mewn meysydd datganoledig ac eithrio lle gwnaed rheoliadau cymal 11. Pŵer cydredol yw hwn, sy'n golygu bod gan Weinidogion y DU y pŵer hefyd i ddiwygio cyfraith yr UE a ddargedwir sy'n uniongyrchol gymwys mewn meysydd datganoledig. Mae'r Cytundeb Rhynglywodraethol yn nodi na fydd yn gwneud hynny fel arfer heb gytundeb y gweinyddiaethau datganoledig. O ran deddfwriaeth mewn meysydd datganoledig na all Gweinidogion Cymru eu diwygio oherwydd

cyfyngiadau cymal 11, dywed y Cytundeb Rhynglywodraethol fod Llywodraeth y DU yn ymrwymo i ymgynghori â Llywodraeth Cymru cyn gwneud rheoliadau.

Cytunodd yr Arglwyddi hefyd ar welliannau Llywodraeth y DU i atal rheoliadau a wneir o dan gymal 7 ac Atodlen 2 i'r Bil rhag cael eu defnyddio i ddiwygio Deddf Llywodraeth Cymru 2006.

Yn ychwanegol at y consesiynau a wnaed mewn perthynas â darpariaethau datganoli yn y Bil Ymadael, collodd Llywodraeth y DU 14 o bleidleisiau hefyd yn ystod Cyfnod Adrodd Tŷ'r Arglwyddi.

Ar 18 Ebrill, sef diwrnod cyntaf Cyfnod Adrodd Bil Ymadael â'r UE yn Nhŷ'r Arglwyddi, collodd y Llywodraeth bleidlais ar welliant undeb tollau. Pleidleisiodd Aelodau Tŷ'r Arglwyddi o 348 i 225 o blaid ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion wneud datganiad sy'n amlinellu'r camau a gymerwyd yn ystod negodiadau Erthygl 50 i alluogi'r DU i barhau i gymryd rhan mewn undeb tollau gyda'r UE. Pleidleisiodd 24 o arglwyddi'r Ceidwadwyr hefyd o blaid y gwelliant. Ar yr un diwrnod, collodd y Llywodraeth bleidlais hefyd ar Welliant 11 sy'n rhoi mwy o ddiogelwch i rai o feysydd cyfraith yr UE. Pleidleisiodd yr Aelodau o 314 o bleidleisiau i 217 o blaid sicrhau mai dim ond drwy ddeddfwriaeth sylfaenol ar ôl Brexit y gellir diwygio neu ddiddymu cyfraith yr UE a ddargedwir sy'n ymwneud â chyflogaeth, cydraddoldeb, iechyd a diogelwch a hawliau defnyddwyr ac amgylcheddol.

Ar 23 Ebrill, sef ail ddiwrnod y Cyfnod Adrodd, collodd Llywodraeth y DU bleidlais ar welliant 15 mainc groes sy'n ymwneud â Siarter Hawliau Sylfaenol yr UE. Pleidleisiodd Aelodau Tŷ'r Arglwyddi o 316 i 245 i sicrhau bod y rhan fwyaf o hawliau sylfaenol siarter yr UE yn parhau i fod yn rhan o gyfraith ddomestig ar ôl Brexit.

Ar 25 Ebrill, sef trydydd diwrnod y Cyfnod Adrodd, collodd y Llywodraeth bleidlais ar arfer pwerau Gweinidogol. Pleidleisiodd Aelodau Tŷ'r Arglwyddi o 349 i 221 o blaid gwelliant mainc groes yr Arglwydd Lisvane i roi "necessary" (angenrheidiol) yn lle "appropriate" (priodol) yng nghymal 7 y Bil fel bod Gweinidogion ond yn gallu pasio rheoliadau pan fo'n angenrheidiol yn hytrach na phan fo'n briodol yn eu barn hwy.

Ar 30 Ebrill, sef pedwerydd diwrnod y Cyfnod Adrodd, pleidleisiodd yr Aelodau 335 o blaid a 244 yn erbyn, gan roi pleidlais 'ystyrlon' i'r Senedd ar ganlyniad negodiadau â'r UE. Mae angen cymeradwyaeth seneddol o ganlyniad y negodiadau ar y gwelliant a gyflwynwyd gan yr Is-iarll Hailsham. Yn yr un modd, pleidleisiodd yr Aelodau o blaid caniatáu i'r Senedd fynegi barn am negodiadau yn y dyfodol (271 o blaid a 233 yn erbyn).

Ar 2 Mai, sef pumed diwrnod y Cyfnod Adrodd, pleidleisiodd yr Aelodau 309 o blaid a 242 yn erbyn cynnwys bwriadau Cytundeb Gwener y Groglith fel rhan o'r Bil.

Ar 8 Mai, sef chweched diwrnod y Cyfnod Adrodd a'r olaf, cefnogodd yr Aelodau Welliant 93 i sicrhau na fydd dim byd yn atal cyfranogiad parhaus yn asiantaethau'r UE ar ôl Brexit. Pleidleisiodd yr Aelodau hefyd i ddileu'r diwrnod ymadael fel 29 Mawrth 2019 o'r Bil. Pleidleisiodd yr Aelodau hefyd 247 o blaid a 218 yn erbyn y cyfranogiad parhaus yn yr Ardal Economaidd Ewropeaidd (AEE). Yn olaf, pleidleisiodd yr Aelodau o blaid darparu i bwyllgorau seneddol sifftio rheoliadau a wneir o dan gymalau 7-9 a 17 y Bil.

Dogfennau a Phapurau Sefyllfa

Ers i'r adroddiad monitro diwethaf gael ei gyhoeddi, mae'r UE wedi cyhoeddi ei gyfarwydddebau negodi ar y cyfnod pontio, papur safbwynt ar gymalau yr awgrymir eu cynnwys yn y Cytundeb Ymadael a chyfres o gyflwyniadau a wnaed fel rhan o'r trafodaethau mewnol anffurfiol ar y berthynas yn y dyfodol. Mae'r rhain wedi'u hychwanegu at y tabl isod.

Tabl 1 Papurau Sefyllfa a dogfennau allweddol a gyhoeddwyd gan yr UE a'r DU

| Papur yr UE | Cynnwys Papur yr UE | Papur y DU | Cynnwys Papur y DU |
|--|--|--|---|
| <p><u>Essential Principles on Citizens' Rights</u></p> <p>29 Mai 2017 i 27 gwlad yr Undeb Ewropeaidd</p> <p>12 Mehefin i'r DU</p> | <p>Yn amlinellu sefyllfa'r Undeb Ewropeaidd ar hawliau dinasyddion y DU yn yr Undeb Ewropeaidd a hawliau dinasyddion yr Undeb Ewropeaidd yn y DU.</p> | <p><u>Safeguarding the position of EU citizens in the UK and UK nationals in the EU: Position Paper.</u></p> <p>26 Mehefin 2017</p> | <p>Yn amlinellu sefyllfa'r DU ar yr hawliau y dylai dinasyddion yr Undeb Ewropeaidd eu cael yn y DU a'r hawliau y dylai gwladolion y DU eu cael yn yr Undeb Ewropeaidd. Gweler <u>erthygl blog</u> y Gwasanaeth Ymchwil am ragor o fanylion.</p> |
| <p><u>Essential Principles on the financial settlement</u></p> <p>29 Mai 2017 i 27 gwlad yr Undeb Ewropeaidd</p> <p>12 Mehefin i'r DU</p> | <p>Yn amlinellu cynigion yr Undeb Ewropeaidd ar gyfer methodoleg y dylid cytuno arni yn ystod negodiadau Cam 1 ar sut y dylid cyfrifo rhwymedigaethau ariannol y DU i'r Undeb Ewropeaidd. Mae Atodiad 1 yn cynnwys rhestr o asiantaethau, cyrff ac offerynnau ariannol i'w</p> | <p>Dim.</p> | <p>Mae Ysgrifennydd Gwladol y DU ar gyfer DEXEU <u>wedi amlinellu</u> y bydd y DU yn cwestiynu sefyllfa'r Undeb Ewropeaidd yn hytrach nag amlinellu ei sefyllfa ei hun.</p> |

| Papur yr UE | Cynnwys Papur yr UE | Papur y DU | Cynnwys Papur y DU |
|---|---|---|---|
| | cynnwys yn y fethodoleg. | | |
| <p><u>Nuclear material and safeguard equipment (Euratom)</u></p> <p>23 Mehefin 2017 i 27 gwlad yr Undeb Ewropeaidd</p> <p>13 Gorffennaf i'r DU</p> | Yn amlinellu cynigion yr Undeb Ewropeaidd ar gyfer trin a throsglwyddo perchnogaeth deunyddiau ymholltrog arbennig. Mae'n cwmpasu llai o feysydd nag a gynigir gan y DU mewn papur cyfatebol. | <u>Nuclear material and safeguards issues.</u> | Mae Llywodraeth y DU yn nodi chwe egwyddor y mae am i'r negodiadau ar y materion hyn eu cyflawni. Mae'n cwmpasu rhai meysydd ychwanegol at y rhai a gwmpaswyd gan y Comisiwn Ewropeaidd, gan gynnwys contractau presennol ar gyfer cyflenwi deunydd niwclear, gweddillion tanwydd a gwastraff ymbelydrol. Mae'r DU yn nodi y dylai gweddillion tanwydd a gwastraff ymbelydrol barhau i fod yn gyfrifoldeb y Wladwriaeth lle y cawsant eu cynhyrchu ar ôl ymadael. |

| Papur yr UE | Cynnwys Papur yr UE | Papur y DU | Cynnwys Papur y DU |
|--|---|---|---|
| <p>Judicial cooperation in civil and commercial matters</p> <p>29 Mehefin 2017 i 27 gwlad yr Undeb Ewropeaidd</p> <p>13 Gorffennaf i'r DU</p> | <p>Yn amlinellu cynigion ar gyfer rhoi gweithdrefnau ar waith ar gyfer achosion sy'n aros am ddedfryd pan fydd y DU yn ymadael.</p> | <p>Providing a cross-border civil judicial framework: a future partnership paper</p> <p>22 Awst 2017</p> | <p>Mae Llywodraeth y DU wedi nodi ei sefyllfa ar gyfer y gweithdrefnau a ddylai fod yn gymwys i achosion sy'n aros am ddedfryd pan fydd y DU yn ymadael a chynigion ar gyfer cydweithrediad parhaus yn y maes hwn mewn un papur. Mae'r papur yn nodi bod Atodiad A o'r papur yn ymateb yn uniongyrchol i bapur yr Undeb Ewropeaidd ac yn nodi blaenoriaethau Llywodraeth y DU os na chytunir ar bartneriaeth ar gyfer y dyfodol. Fodd bynnag, mae'n nodi nad dim cytundeb ar gydweithredu yn y dyfodol yw ei ddewis. Mae'r papur yn nodi y bydd gadael yr Undeb Ewropeaidd yn dod</p> |

| Papur yr UE | Cynnwys Papur yr UE | Papur y DU | Cynnwys Papur y DU |
|--|--|--|---|
| | | | ag awdurdodaeth uniongyrchol Llys Cyfiawnder Ewrop i ben ond y bydd y DU yn ceisio dod i gytundeb â'r Undeb Ewropeaidd a fydd yn caniatáu cydweithredu barnwrol sifil trawsffiniol clos a chynhwysfawr. |
| <p><u>Ongoing Police and Judicial cooperation in criminal matters</u></p> <p>29 Mehefin 2017 i 27 gwlad yr Undeb Ewropeaidd</p> <p>13 Gorffennaf i'r DU</p> | <p>Cynigion ar gyfer y gweithdrefnau a fydd yn gymwys i weithdrefnau parhaus megis gorchmynion ymchwilio Ewropeaidd a gweithdrefnau Gwarantau Arestio Ewropeaidd ar y dyddiad ymadael a sut y bydd y wybodaeth a geir trwy'r gweithdrefnau hyn yn cael ei thrin.</p> | <p><u>Security law enforcement and criminal justice: Future Partnership Paper</u></p> | <p>Mae Atodiad A o'r papur yn ymateb yn uniongyrchol i'r materion a godwyd gan yr Undeb Ewropeaidd yn ei bapur yntau. Fodd bynnag, mae'r DU yn argymhell y dylid cynnal trafodaethau ar faterion troseddol a fydd yn codi yn sgil ymadael yng nghyd-destun trafodaethau ar bartneriaeth yn y dyfodol. Mae'r papur yn galw am berthynas ddyfnach a</p> |

| Papur yr UE | Cynnwys Papur yr UE | Papur y DU | Cynnwys Papur y DU |
|--|---|---|--|
| | | | <p>chydweithrediad ar faterion sy'n ymwneud â gorfodi'r gyfraith a chyfiawnder troseddol rhwng y DU a'r Undeb Ewropeaidd na'r hyn sydd gan yr Undeb Ewropeaidd â gwledydd trydydd parti ar hyn o bryd. Noda y dylid ei ddarllen ar y cyd â phapurau eraill ar y bartneriaeth yn y dyfodol sy'n ymwneud â diogelwch a diogelu data.</p> |
| <p><u>Ongoing Union and Judicial Procedures</u></p> <p>29 Mehefin 2017 i 27 gwlad yr Undeb Ewropeaidd</p> <p>13 Gorffennaf i'r DU</p> | <p>Yn amlinellu'r cynigion ar gyfer rhoi gweithdrefnau ar waith ar gyfer achosion gerbron Llys Cyfiawnder Ewrop sy'n ymwneud â'r DU neu breswylwyr/unigolion cyfreithlon y DU ar adeg ymadael a chynigion ar gyfer gweithdrefnau gweinyddol</p> | <p><u>Ongoing union judicial and administrative proceedings: Position Paper.</u></p> <p>13 Gorffennaf 2017</p> | <p>Mae Llywodraeth y DU yn cydnabod y bydd rhai achosion yn aros am ddedfryd pan fydd yn ymadael a ddylai barhau i ddod o fewn awdurdodaeth Llys Cyfiawnder Ewrop ac mae'n ceisio cytundeb ar</p> |

| Papur yr UE | Cynnwys Papur yr UE | Papur y DU | Cynnwys Papur y DU |
|---|--|--|---|
| | <p>parhaus o ran sefydliadau'r Undeb, cyrff, swyddfeydd ac asiantaethau sy'n ymwneud â'r DU neu breswylwyr/unigolion cyfreithlon y DU. Cynigiodd yr UE y dylai Llys Cyfiawnder Ewrop gadw rhywfaint o gymhwysedd i ddyfarnu mewn achosion a ddygir yn erbyn y DU ar ôl iddi ymadael sy'n ymwneud â materion a ddigwyddodd pan oedd y DU yn dal i fod yn Aelod-wladwriaeth.</p> | | <p>feini prawf ynghylch y diffiniad o 'aros am ddedfryd'. Mae hefyd yn ceisio eglurhad o rôl Adfocad Cyffredinol y DU a chyfreithwyr y DU yn y Llys am gyfnod pontio tra bo achosion yn dal i aros am ddedfryd. Nid yw'n cytuno y dylai Llys Cyfiawnder Ewrop gadw rhywfaint o gymhwysedd dros achosion a ddygwyd ar ôl y dyddiad ymadael sy'n ymwneud â phethau a ddigwyddodd cyn y dyddiad ymadael.</p> |
| <p><u>Issues relating to the functioning of EU Institutions, Agencies and Bodies</u></p> <p>29 Mehefin 2017 i 27 gwlad</p> | <p>Mae'r papur yn nodi sefyllfa'r UE ar ba amddiffyniadau ac imiwneddau a fydd yn gymwys i sefydliadau ac asiantaethau'r Undeb Ewropeaidd yn y DU ar ôl</p> | <p><u>Privileges and Immunities</u></p> <p>13 Gorffennaf 2017</p> | <p>Mae papur safbwynt y DU yn cytuno y dylid cynnig amddiffyniadau ac imiwneddau i eiddo, asedau a gweithrediadau'r Undeb Ewropeaidd yn y</p> |

| Papur yr UE | Cynnwys Papur yr UE | Papur y DU | Cynnwys Papur y DU |
|---|--|---|--|
| yr Undeb Ewropeaidd 13 Gorffennaf 2017 i'r DU | iddi ymadael wrth i weithgarwch cyrff yr Undeb Ewropeaidd yn y DU ddirwyn i ben. | | DU am gyfnod pontio ar ôl iddi ymadael. Mae negodwyr ar y ddwy ochr wedi nodi eu bod yn agos at ddod i gytundeb ar y mater hwn. |
| <u>Governance</u> 29 Mehefin 2017 i 27 gwlad yr Undeb Ewropeaidd 13 Gorffennaf 2017 i'r DU | Mae'r papur yn amlinellu cynigion yr Undeb Ewropeaidd ar gyfer dull o ddatrys anghydfodau ar gyfer y Cytundeb Ymadael, gan gynnwys sefydlu Cydbwyllgor i ystyried anghydfodau. Dywed y dylai'r Cydbwyllgor gyfeirio achosion at Lys Cyfiawnder Ewrop am benderfyniadau rhwymol pan na ellir dod i gytundeb yn y Pwyllgor. Noda y dylai'r Comisiwn Ewropeaidd gadw pwerau llawn ar gyfer monitro a gweithredu'r cytundeb ar | <u>Enforcement and Dispute resolution:</u> Future Partnership Paper 23 Awst 2017 | Mae'r papur yn cynnwys cynigion ar gyfer dull gorfodi a datrys anghydfodau newydd ar gyfer y Cytundeb Ymadael ac unrhyw bartneriaeth yn y dyfodol. Mae'r papur yn nodi y bydd angen dull newydd gan y bydd awdurdodaeth Llys Cyfiawnder Ewrop yn dod i ben. Safbwynt y DU yw, pan fo'r Cytundeb Ymadael neu unrhyw drefniadau partneriaeth yn y dyfodol yn arwain at hawliau neu rwymedigaethau ar gyfer |

| Papur yr UE | Cynnwys Papur yr UE | Papur y DU | Cynnwys Papur y DU |
|--|---|---|--|
| | hawliau dinasyddion. | | unigolion a busnesau sy'n gweithredu yn y DU, bydd y rhain yn dod i rym yng nghyfraith y DU ac yn cael eu gorfodi gan lysoedd y DU. Mae'r papur safbwynt yn dadlau nad oes cynsail na gorfodaeth yng nghyfraith yr Undeb Ewropeaidd na'r DU sy'n datgan bod rhaid i brosesau gorfodi neu ddatrys anghydfodau ddod o dan awdurdodaeth uniongyrchol Llys Cyfiawnder Ewrop. |
| <p><u>Goods placed on the market under Union law before the withdrawal date</u></p> <p>29 Mehefin 2017 i'r UE</p> | Mae'r papur yn nodi'r cynigion ar gyfer y gweithdrefnau a ddylai fod yn berthnasol i nwyddau sy'n cydymffurfio â holl reolau'r Undeb ac yn cael eu rhoi ar y farchnad i'w gwerthu cyn y | <p><u>Continuity in the availability of goods for the EU and the UK:</u></p> <p>Position Paper</p> <p>21 Awst 2017</p> | Mae Llywodraeth y DU yn dweud y dylid datrys y mater hwn o ran unrhyw bartneriaeth yn y dyfodol. Mae'r DU yn gofyn am drafod ymhellach ystyr "rhoi ar y farchnad" ac yn |

| Papur yr UE | Cynnwys Papur yr UE | Papur y DU | Cynnwys Papur y DU |
|--|---|--|--|
| 13 Gorffennaf 2017 i'r DU | dyddiad ymadael ond nad ydynt wedi'u gwerthu erbyn y dyddiad ymadael. | | awgrymu y dylai gynnwys gwasanaethau sy'n gysylltiedig â chyflenwi nwyddau. |
| <p><u>Customs related matters needed for an orderly withdrawal of the UK from the Union</u></p> <p>7 Medi 2017 i 27 gwlad yr Undeb Ewropeaidd</p> | Cynigion ar gyfer y gweithdrefnau tollau a ddylai fod yn gymwys i nwyddau y dechreuodd eu symudiad cyn y dyddiad ymadael ond yn dod i ben ar y dyddiad hwnnw neu ar ôl hynny. | <p><u>Continuity in the availability of goods for the EU and the UK:</u></p> <p>Position Paper</p> <p>21 Awst 2017</p> <p><u>Future customs arrangements: Future Partnership Paper</u></p> <p>15 Awst 2017</p> | Mae papur safbwynt y DU ar barhad argaeledd nwyddau'n cydnabod y bydd angen mynd i'r afael â materion tollau sy'n ymwneud â nwyddau sydd ar y farchnad ar adeg ymadael ond mae'n gwneud hynny gan gyfeirio at ei gynigion ar gyfer perthynas tollau yn y dyfodol ac yn nodi y dylid mynd i'r afael â'r mater trwy gyfeirio at bartneriaeth ar gyfer y dyfodol. |
| <u>Guiding Principles transmitted to EU 27 for</u> | Egwyddorion sy'n sail i drafodaethau am y | <u>Northern Ireland and</u> | Mae'r papur safbwynt yn nodi y dylai'r Ardal Deithio |

| Papur yr UE | Cynnwys Papur yr UE | Papur y DU | Cynnwys Papur y DU |
|---|---|--|--|
| <p><u>the Dialogue on Ireland/Northern Ireland.</u></p> <p>7 Medi i 27 gwlad yr Undeb Ewropeaidd</p> | <p>berthynas rhwng Iwerddon a Gogledd Iwerddon. Ni chynigir atebion ar gyfer ffin Iwerddon ac mae'r papur yn rhoi'r cyfrifoldeb ar y DU i gynnig atebion.</p> | <p><u>Ireland:</u> Position Paper</p> <p>16 Awst 2017</p> | <p>Gyffredin rhwng Iwerddon a'r DU barhau, y dylid gwneud cynnydd cyflym ar y mater ac na fydd parhad yr Ardal Deithio Gyffredin yn effeithio ar hawliau dinasyddion yr UE yn Iwerddon. Nid yw'r papur yn cynnig opsiynau penodol ar gyfer y ffiniau tir ond mae'n nodi egwyddorion i brofi modelau yn eu herbyn. Mae'n croesgyfeirio at gynigion Llywodraeth y DU ar gyfer trefniadau tollau yn y dyfodol. Noda na ddylai unrhyw ateb y cytunir arno ei gwneud yn ofynnol i gael ffiniau tollau newydd rhwng Gogledd Iwerddon a Phrydain Fawr. Gwna gynigion penodol ar gynhyrchion bwyd-amaeth. Awgryma y dylid cael</p> |

| Papur yr UE | Cynnwys Papur yr UE | Papur y DU | Cynnwys Papur y DU |
|--|---|------------|--|
| | | | cytundeb i barhau â chyllid PEACE i Ogledd Iwerddon a siroedd ffiniol Iwerddon a hynny ar wahân i'r trafodaethau ehangach ar y setliad ariannol. |
| <p><u>Public Procurement</u></p> <p>7 Medi i 27 gwlad yr Undeb Ewropeaidd</p> | <p>Cynigion ar gyfer y rheolau a'r gweithdrefnau ar gaffael cyhoeddus a ddylai fod yn gymwys i weithdrefnau caffael a chontractau sy'n parhau ar y dyddiad ymadael.</p> | Dim | |
| <p><u>Intellectual Property Rights (including geographical indications)</u></p> <p>7 Medi 2017 i 27 gwlad yr Undeb Ewropeaidd</p> | <p>Cynigion ar gyfer parhau i ddiogelu hawliau eiddo deallusol y cytunwyd arnynt cyn y dyddiad ymadael, gan gynnwys gwarchod enwau bwyd gwarchodedig. Mae'r Undeb Ewropeaidd yn</p> | Dim | |

| Papur yr UE | Cynnwys Papur yr UE | Papur y DU | Cynnwys Papur y DU |
|--|---|---|--|
| | awgrymu y bydd angen i'r ddeddfwriaeth ddomestig newydd ar enwau bwyd gwarchoddedig fod ar waith yn y DU cyn y dyddiad ymadael. | | |
| <p><u>Use of Data and Protection of Information Obtained or Processed before the Withdrawal Date</u></p> <p>7 Medi i 27 gwlad yr Undeb Ewropeaidd</p> | Cynigion ynglŷn â'r rheolau a'r amddiffyniadau cyfatebol a ddylai fod yn gymwys i ddata a gedwir neu a brosesir yn y DU a'r Undeb Ewropeaidd ar ôl y dyddiad ymadael. | <p><u>Confidentiality and access to documents:</u></p> <p>Position Paper</p> <p>21 Awst 2017</p> | Mae'r papur yn nodi mai'r nod ddylai fod i'r Cytundeb Ymadael sicrhau bod gan y DU a'r Undeb Ewropeaidd amddiffyniadau a rhwymedigaethau cyfatebol ar wybodaeth a mynediad at ddogfennau fel sy'n wir ar hyn o bryd o dan ddeddfwriaeth bresennol yr Undeb Ewropeaidd. |
| Dim | | <u>Future Customs Arrangements: Future</u> | Mae'r papur safbwynt yn cynnig dau opsiwn posibl ar gyfer perthynas tollau yn |

| Papur yr UE | Cynnwys Papur yr UE | Papur y DU | Cynnwys Papur y DU |
|-------------|---------------------|---|--|
| | | <p>partnership paper</p> <p>15 Awst 2017</p> | <p>y dyfodol. Trefniad tollau hynod syml rhwng y DU a'r Undeb Ewropeaid neu bartneriaeth tollau newydd â'r Undeb Ewropeaidd lle byddai'r DU yn cysoni ei ffin â'r Undeb Ewropeaidd fel y byddai'n cael gwared ar yr angen am y ffin tollau rhwng y DU a'r Undeb Ewropeaidd. Byddai'r DU yn gadael yr undeb tollau ac yn gallu negodi ei chytundebau masnach ei hun o dan y ddau opsiwn.</p> <p>O dan yr ail opsiwn, mae'r papur safbwynt yn cynnig y byddai'r DU yn adlewyrchu gofynion yr Undeb Ewropeaidd ar gyfer nwyddau o weddill y byd os mai'r Undeb Ewropeaidd yw'r cyrchfan terfynol. Noda y byddai hyn</p> |

| Papur yr UE | Cynnwys Papur yr UE | Papur y DU | Cynnwys Papur y DU |
|-------------|---------------------|---|---|
| | | | <p>yn ddigynsail ac y gallai fod yn heriol i'w weithredu ond mae'n dymuno ei drafod â'r Undeb Ewropeaidd.</p> <p>Mae'r papur yn cynnig model cyfyngedig o ran amser ar gyfer cysylltiad agos ag undeb Tollau yr Undeb Ewropeaidd am gyfnod pontio er mwyn osgoi sefyllfa 'ymyl clogwyn' i fusnesau ac unigolion ar y ddwy ochr.</p> |
| Dim | | <p><u>The exchange and protection of personal data: Future partnership paper</u></p> <p>24 Awst 2017</p> | <p>Yn amlinellu cynigion Llywodraeth y DU ar gyfer model newydd o gyfnewid a diogelu data personol rhwng y DU a'r Undeb Ewropeaidd yn seiliedig ar ddull cyfredol yr Undeb Ewropeaidd. Mae'n awgrymu y gallai Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth</p> |

| Papur yr UE | Cynnwys Papur yr UE | Papur y DU | Cynnwys Papur y DU |
|-------------|---------------------|---|--|
| | | | barhau i gydweithio â rheoleiddwyr yr Undeb Ewropeaidd. |
| Dim | | <p><u>Collaboration on Science and innovation: Future partnership paper</u></p> <p>6 Medi 2017</p> | <p>Mae'n amlinellu cynigion Llywodraeth y DU ar gyfer cytundeb gwyddoniaeth ac arloesedd â'r UE. Noda y dylai'r cytundeb fod yn eang a galluogi meysydd ymchwil newydd. Noda y bydd angen negodi mynediad parhaus y DU at raglenni ymchwil ac arloesedd yr Undeb Ewropeaidd, ynghyd â maint unrhyw gyfraniad ariannol y byddai'n rhaid i'r DU ei wneud i gymryd rhan ynddynt. Mae'n nodi y byddai angen cydbwysu'r cyfraniad hwn yn erbyn blaenoriaethau gwariant eraill Llywodraeth y DU.</p> |

| Papur yr UE | Cynnwys Papur yr UE | Papur y DU | Cynnwys Papur y DU |
|-------------|---------------------|--|---|
| | | | Cyfeirir at gyfranogiad Prifysgolion Cymru mewn rhaglenni a rhwydweithiau sy'n bodoli eisoes. |
| Dim | | <p><u>Foreign Policy, defence and development: Future partnership paper</u></p> <p>12 Medi 2017</p> | Mae'r papur yn cynnig partneriaeth yn y dyfodol â'r Undeb Ewropeaidd ar ddiogelwch ac amddiffyniad sy'n ehangach nag unrhyw gytundeb sydd gan yr Undeb Ewropeaidd ar hyn o bryd â gwlad trydydd parti. Mae'n nodi'r meysydd lle mae cydweithrediad ar amddiffyniad, diogelwch a datblygiad rhyngwladol ar hyn o bryd. |
| Dim | | <p><u>Customs Bill White Paper: legislating for UK's future customs, VAT</u></p> | Mae'r <u>Papur Gwyn ar y Bil Tollau</u> yn nodi cynigion cychwynnol Llywodraeth y DU ar gyfer system |

| Papur yr UE | Cynnwys Papur yr UE | Papur y DU | Cynnwys Papur y DU |
|-------------|---------------------|--|--|
| | | <p><u>and excise regimes</u></p> <p>9 Hydref 2017</p> | <p>annibynnol ar gyfer tollau tramor, TAW a thollau cartref ar ôl i'r DU ymadael â'r Undeb Ewropeaidd. Mae'r Papur Gwyn yn cynnwys cynigion ar gyfer senario wrth gefn os na ddeuir i gytundeb â'r Undeb Ewropeaidd ar berthynas fasnachu ar gyfer y dyfodol.</p> |
| Dim | | <p><u>Preparing for our future UK trade policy</u></p> <p>9 Hydref 2017</p> | <p>Mae'r <u>papur gwyn ar y polisi masnach</u> yn nodi'r safbwyntiau a ffefrir gan Lywodraeth y DU ar gyfer polisi masnach newydd ac yn nodi pa ddeddfwriaeth y bydd ei hangen er mwyn gweithredu'r polisi hwnnw. Mae'r papur yn nodi pum blaenoriaeth ar gyfer polisi masnachu newydd.</p> |

| Papur yr UE | Cynnwys Papur yr UE | Papur y DU | Cynnwys Papur y DU |
|--|---|--|--|
| <p><u>European Council Conclusions</u> ar y cynnydd a wnaed yn y negodiadau - 20 Hydref</p> | <p>Daeth y Cyngor i'r casgliad na wnaed digon o gynnydd yn y trafodaethau ar y Cytundeb Ymadael i ddechrau negodiadau ar y berthynas yn y dyfodol. Rhoddodd fanylion o ran lle y mae angen rhagor o gynnydd. Nododd hefyd y byddai paratodau mewnol rhwng y 27 Aelod-wladwriaeth sy'n weddill ar gyfer trafodaethau ar berthynas fasnach yn y dyfodol yn dechrau.</p> | <p>Dim</p> | |
| <p>Dim</p> | | <p><u>Sanctions and Anti-Money Laundering Bill</u></p> <p>19 Hydref</p> | <p>Ystyrir bod y Bil yn angenrheidiol er mwyn sicrhau y caiff y DU weithredu cyfundrefn sancsiynau ryngwladol yn dilyn ei hymadawiad â'r UE.</p> |

| Papur yr UE | Cynnwys Papur yr UE | Papur y DU | Cynnwys Papur y DU |
|-------------|---------------------|---|--|
| Dim | | <p><u>Technical Note: citizen's rights administrative procedures in the UK</u></p> <p>7 Tachwedd</p> | <p>Cyhoeddodd Llywodraeth y DU ragor o fanylion ynghylch sut y bydd y system yn gweithio i ddinasyddion yr Undeb Ewropeaidd wneud cais am breswyliaeth barhaol yn y DU. Anfonwyd hwn fel papur technegol at y Comisiwn Ewropeaidd.</p> |
| Dim | | <p><u>Trade Bill 2018</u></p> <p>7 Tachwedd</p> | <p>Mae'r Bil yn rhoi pwerau i'r Gweinidogion wneud newidiadau i gyfraith ddomestig y DU weithredu Cytundeb Sefydliad Masnach y Byd ar Gaffael y Llywodraeth, a newidiadau angenrheidiol os bydd y DU yn dyblygu rhai o gytundebau presennol yr UE â gwledydd trydydd parti. Mae hefyd yn darparu ar gyfer sefydlu Awdurdod</p> |

| Papur yr UE | Cynnwys Papur yr UE | Papur y DU | Cynnwys Papur y DU |
|---|--|--|--|
| | | | Rhwymedïau Masnach newydd ac mae'n rhoi data newydd i CThEM a phwerau a dyletswyddau mewn perthynas ag allforio a masnach. |
| <p>Joint Report gan negodwyr yr Undeb Ewropeaidd a Llywodraeth y DU ar gynnydd yn ystod Cam 1 negodiadau o dan Erthygl 50 y Cytyniad ar yr UE ar ymadawiad trefnus y DU â'r UE</p> <p>8 Rhagfyr 2017</p> | <p>Daeth yr Undeb Ewropeaidd a Llywodraeth y DU i gytundeb mewn egwyddor yn y meysydd dan ystyriaeth yn ystod cam cyntaf y negodiadau, gan alluogi trafodaethau i symud i'r cam nesaf. Mae'r adroddiad yn nodi'r sefyllfa y cytunwyd arni ar amddiffyn hawliau dinasyddion yr Undeb yn y DU a dinasyddion y DU yn yr Undeb; y fframwaith ar gyfer mynd i'r afael â'r amgylchiadau unigryw yng Ngogledd Iwerddon; a'r setliad ariannol.</p> | <p>Joint Report</p> <p>8 Rhagfyr 2017</p> | |

| Papur yr UE | Cynnwys Papur yr UE | Papur y DU | Cynnwys Papur y DU |
|--|--|---|---|
| <p><u>Communication from the Commission to the European Council (Article 50)</u> ar y sefyllfa o ran cynnydd y negodiadau â'r DU o dan Erthygl 50 o'r Cytuniad ar yr Undeb Ewropeaidd</p> <p>8 Rhagfyr 2017</p> | <p>Yn seiliedig ar yr Adroddiad ar y Cyd gan negodwyr yr UE a Llywodraeth y DU, argymhellodd y Comisiwn y dylai'r Cyngor Ewropeaidd (Erthygl 50) ddod i'r casgliad bod cynnydd digonol wedi'i wneud yng nghanam cyntaf y negodiadau.</p> | | |
| <p>Dim</p> | | <p><u>Prime Minister's Commitments to Northern Ireland</u></p> <p>8 Rhagfyr 2017</p> | <p>Nododd y Prif Weinidog Theresa May chwe ymrwymiad allweddol i Ogledd Iwerddon a oedd yn ei harwain yn y negodiadau â'r UE.</p> |
| <p><u>Guidelines</u> y Cyngor Ewropeaidd</p> <p>15 Rhagfyr 2017</p> | <p>Yn dilyn y penderfyniad bod digon o gynnydd wedi'i wneud, cyhoeddodd y Cyngor Ewropeaidd (Erthygl 50) ganllawiau drafft i symud i ail gam y</p> | <p>Dim</p> | |

| Papur yr UE | Cynnwys Papur yr UE | Papur y DU | Cynnwys Papur y DU |
|---|--|------------|--------------------|
| | negodiadau, pan drafodir cyfnod pontio a'r fframwaith ar gyfer y berthynas yn y dyfodol. | | |
| <u>Supplementary negotiating directives</u> 20 Rhagfyr 2017 | Cyfarwyddebau atodol ar gyfer negodi cytundeb â'r DU sy'n nodi'r trefniadau ar gyfer ei hymadawiad â'r UE. | Dim | |
| <u>Slides on Fisheries</u> 17 Ionawr 2018 | Cyflwyniad ar bysgodfeydd i lywio'r trafodaethau paratoadol mewnol ynghylch y berthynas yn y dyfodol. | Dim | |
| <u>Slides on Aviation</u> 17 Ionawr 2018 | Cyflwyniad ar hedfan i lywio'r trafodaethau paratoadol mewnol ynghylch y berthynas yn y dyfodol. | Dim | |
| <u>Slides on Governance</u> | Cyflwyniad ar lywodraethu i lywio'r trafodaethau | Dim | |

| Papur yr UE | Cynnwys Papur yr UE | Papur y DU | Cynnwys Papur y DU |
|--|--|------------|--------------------|
| 19 Ionawr 2018 | paratoadol mewnol ynghylch y berthynas yn y dyfodol. | | |
| <u>Slides on Security, Defence and Foreign Policy</u> 24 Ionawr 2018 | Cyflwyniad ar ddiogelwch, amddiffyn a pholisi tramor i lywio'r trafodaethau paratoadol mewnol ynghylch y berthynas yn y dyfodol. | Dim | |
| <u>Slides on Police and Judicial Cooperation in criminal matters</u> 24 Ionawr 2018 | Cyflwyniad ar yr heddlu a chydweithrediad barnwrol i lywio'r trafodaethau paratoadol mewnol ynghylch y berthynas yn y dyfodol. | Dim | |
| <u>Council (Article 50) negotiating directives on the transition period</u> 29 Ionawr 2018 | Cyfarwyddebau gan y Cyngor Ewropeaidd sy'n nodi'r canllawiau i negodwr yr Undeb ar gyfnod pontio gyda'r DU | Dim | |

| Papur yr UE | Cynnwys Papur yr UE | Papur y DU | Cynnwys Papur y DU |
|---|--|--|---|
| <p><u>Slides on a Level Playing Field</u></p> <p>31 Ionawr 2018</p> | Cyflwyniad ar sicrhau amodau teg a chyfartal i lywio'r trafodaethau paratoadol mewnol ynghylch y berthynas yn y dyfodol. | Dim | |
| <p><u>Slides on Services</u></p> <p>6 Chwefror 2018</p> | Cyflwyniad ar wasanaethau i lywio'r trafodaethau paratoadol mewnol ynghylch perthynas yn y dyfodol. | Dim | |
| <p><u>Slides on International Agreements and Trade Policy</u></p> <p>6 Chwefror 2018</p> | Cyflwyniad ar gytundebau rhyngwladol a pholisi masnach i lywio'r trafodaethau paratoadol mewnol ynghylch perthynas yn y dyfodol. | Dim | |
| <p><u>Position Paper on Transitional Arrangements in the</u></p> | Papur sy'n amlinellu'r testun cyfreithiol posibl ar y cyfnod pontio i'w gynnwys yn y | Ymateb i'r Papur safbwynt ar y Trefniadau Pontio yn y Cytundeb | Ymateb gyda diwygiadau awgrymedig i'r papur safbwynt a gyhoeddwyd |

| Papur yr UE | Cynnwys Papur yr UE | Papur y DU | Cynnwys Papur y DU |
|---|--|---|--|
| <u>Withdrawal Agreement</u> 7 Chwefror 2018 | Cytundeb Ymadael. | Ymadael 21 Chwefror 2018. | gan y Comisiwn Ewropeaidd. |
| Dim. | | <u>Technical note on international agreements</u> 8 Chwefror 2018 | Mae'r nodyn technegol hwn yn amlinellu rhagor o wybodaeth am ddull y DU o weithredu cytundebau rhyngwladol yn ystod y cyfnod gweithredu. |
| <u>Slides on Transport</u> 21 Chwefror 2018 | Cyflwyniad ar drafnidiaeth i lywio'r trafodaethau paratoadol mewnol ynghylch perthynas yn y dyfodol. | Dim. | |
| <u>Slides on Mobility</u> 21 Chwefror 2018 | Cyflwyniad ar symudedd i lywio'r trafodaethau paratoadol mewnol ynghylch perthynas yn y dyfodol. | Dim. | |

| Papur yr UE | Cynnwys Papur yr UE | Papur y DU | Cynnwys Papur y DU |
|---|---|------------|--------------------|
| <u>Slides on regulatory issues</u> <u>21 Chwefror 2018</u> | Cyflwyniad ar faterion rheoleiddio i lywio'r trafodaethau paratoadol mewnol ynghylch perthynas yn y dyfodol. | Dim. | |
| <u>Brexit preparedness document rail transport</u> 27 Chwefror 2018 | Gwybodaeth i ddinasyddion a busnesau am oblygiadau ymadawiad y DU â'r UE ar drafnidiaeth rheilffyrdd. | Dim. | |
| <u>Brexit preparedness document consumer protection and passenger rights</u> 27 Chwefror 2018 | Gwybodaeth i ddinasyddion a busnesau am oblygiadau ymadawiad y DU â'r UE ar ddiogelwch defnyddwyr a hawliau teithwyr. | Dim. | |
| <u>Brexit preparedness document animal health and welfare</u> 27 Chwefror 2018 | Gwybodaeth i ddinasyddion a busnesau am oblygiadau ymadawiad y DU â'r UE ar iechyd a lles anifeiliaid. | Dim. | |

| Papur yr UE | Cynnwys Papur yr UE | Papur y DU | Cynnwys Papur y DU |
|---|---|---|--|
| <p><u>Brexit preparedness document maritime transport</u></p> <p>27 Chwefror 2018</p> | <p>Gwybodaeth i ddinasyddion a busnesau am oblygiadau ymadawiad y DU â'r UE ar drafnidiaeth forol.</p> | <p>Dim.</p> | |
| <p><u>Draft legal text on the Withdrawal Agreement</u></p> <p>28 Chwefror 2018</p> | <p>Erthyglau drafft a chymalau ar gyfer testun cyfreithiol i weithredu'r cytundeb y deuir iddo rhwng yr UE a'r DU ar Ymadael.</p> | <p>Dim.</p> | |
| <p><u>European Council draft negotiation guidelines on a framework for a future partnership</u></p> <p>7 Mawrth 2018</p> | <p>Canllawiau a awgrymir gan y Cyngor i'r Comisiwn ar gytuno ar fframwaith ar gyfer partneriaeth yn y dyfodol rhwng yr UE a'r DU.</p> | <p>Dim.</p> | |
| | | <p><u>Frameworks analysis</u></p> <p>9 Mawrth 2018</p> | <p>Dadansoddiad o'r meysydd lle mae cyfraith yr UE yn gorgyffwrdd â chymhwysedd datganoledig yng</p> |

| Papur yr UE | Cynnwys Papur yr UE | Papur y DU | Cynnwys Papur y DU |
|--|--|--|---|
| | | | Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon. |
| | | <u>Draft Withdrawal Agreement</u> 19 Mawrth 2018 | Mae'r Cytundeb Ymadael drafft, dyddiedig 19 Mawrth 2018 yn cynnwys testun cyfreithiol y cytunwyd arno o ran y cyfnod gweithredu, hawliau dinasyddion, a'r setliad ariannol, yn ogystal â nifer sylweddol o erthyglau eraill. Nod timau negodi'r DU a'r UE yw cwblhau'r Cytundeb Ymadael yn gyfan gwbl erbyn mis Hydref. |
| <u>European Council (Art. 50) guidelines on the framework for the future EU-UK relationship</u> | Bydd y canllawiau hyn yn gweithredu fel mandad i negodwr yr UE ddechrau trafod y fframwaith ar gyfer y berthynas yn y dyfodol, | <u>The Prime Minister's letter to UK Businesses</u> 23 Mawrth 2018 | Esbonio elfennau sylweddol y cyfnod pontio. |

| Papur yr UE | Cynnwys Papur yr UE | Papur y DU | Cynnwys Papur y DU |
|--|---|---|---|
| 23 Mawrth 2018 | gyda'r nod o ddod i ddealltwriaeth gyffredinol. Adlewyrchir y ddealltwriaeth honno mewn datganiad gwleidyddol sy'n cyd-fynd â'r Cytundeb Ymadael ac y cyfeirir ati ynddo. | | |
| <p><u>Hysbysiad i'r rhanddeiliaid mewn perthynas â'r canlynol:</u> y farchnad ynni fewnol, tystysgrifau amddiffyn ar gyfer cynhyrchion diogelu meddyginiaethol a phlanhigion, rheolau ym maes sefydliadau ar gyfer darpariaeth ymddeoliad galwedigaethol.</p> <p>27 Ebrill 2018</p> | | <p><u>Intellectual Property and Brexit</u> Factsheet</p> <p>26 Ebrill 2018</p> | <p>Taflen ffeithiau diweddarau ar ddyfodol cyfreithiau eiddo deallusol yn dilyn y penderfyniad y bydd y DU yn gadael yr UE. Cyhoeddwyd gyntaf ym mis Awst 2016.</p> |

3. Meysydd allweddol sydd o ddiddordeb i'r Pwyllgor Materion Allanol

Paratoi ar gyfer Brexit

Ar 25 Ebrill, cafodd Is-bwyllgor Ynni ac Amgylchedd yr UE Tŷ'r Arglwyddi **dystiolaeth ysgrifenedig gan Lesley Griffiths AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig**, fel rhan o'i ymchwiliad i fiaddiogelwch planhigion ac anifeiliaid ar ôl Brexit. Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet:

Welsh Government officials are undertaking an on-going programme of identifying the deficiencies in EU derived legislation and the relevant solutions, which are required in order to ensure our legislative framework functions on day 1 of exiting the EU... One of the fundamental flaws within the UK Government's EU (Withdrawal) Bill is that it does not provide the Welsh Ministers with any powers to amend this directly applicable legislation, despite these areas falling within devolved competence. Amendments are continuing to be introduced to the Bill, which may impact on the extent of the powers provided to the Welsh Ministers to enable them to deliver for the needs of Wales. In addition, to the programme of correcting legislation, the UK Government is also proposing to introduce primary legislation into Parliament, in particular in respect of Agriculture and Fisheries. These areas have a close relationship with Animal Health and Welfare and also cover devolved areas. It is therefore imperative the UK Government fully engages with us on the arrangements they propose for England and that there is a clear, collective process to agree

Rhoddodd **Mark Drakeford AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid, dystiolaeth i'r Pwyllgor hwn** ar 16 Ebrill, gan amlinellu gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer perthynas rhwng y DU a'r UE ar ôl Brexit. Tynnodd sylw at ei awydd i barhau i fod yn rhan o raglenni a chyryff penodol yr UE, fel Erasmus+ a Banc Buddsoddi Ewrop. Nododd:

...we are making considerably bigger efforts than we have needed to in the past, to keep key relationships with other parts of Europe at a regional level, to let people out there know that we are very keen to go on being able to be part of those arrangements into the future.

O ran y negodiadau ar Ffin yr Iwerddon, nododd Mark Drakeford, er na fydd gan Lywodraeth Cymru rôl ffurfiol yn y trafodaethau i ddod o hyd i ateb, fod Llywodraeth y DU wedi cael ei hysbysu'n llawn gennym am y buddiannau penodol i Gymru sydd yn y fantol.

Cafodd y Pwyllgor **dystiolaeth gan Robin Walker AS, yr Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol ar gyfer Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd, a Chloe Smith AS, Gweinidog y Cyfansoddiad, ar 30 Ebrill**. Pan ofynnwyd iddynt ynghylch pa waith cynllunio y mae Llywodraeth y DU wedi'i wneud i fynd i'r afael ag effaith ymadawiad y DU â'r UE heb gytuno ar fargen, tynnodd Mr Walker sylw at y swm £21m mewn symiau canlyniadol Barnett a gaiff Llywodraeth Cymru yn 2018/19 o ganlyniad i gyllideb Llywodraeth y DU fel rhan o'i threfniadau i fod yn barod ar gyfer Brexit, fel **y tynnwyd sylw ato yn yr adroddiad monitro blaenorol**. Mae'n mynd ymlaen i adrodd mai diben yr adnodd ychwanegol hwn yn benodol yw cynllunio ar gyfer dim bargaen.

Y cyfnod pontio

Ar 16 Ebrill, ymatebodd yr Arglwydd Callanan, Gweinidog Gwladol y DU, Adran Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd, **i gwestiynau yn Siambr yr Arglwyddi** ar y goblygiadau ar gyfer busnes os bydd cyfnod pontio byr fel rhan o ymadawiad y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd, ac i ba raddau y mae adolygiadau'n cael eu cynnal i gael gafael ar gyflwr parodrwydd adrannau ac asiantaethau'r Llywodraeth i sicrhau y bydd yr holl reoliadau ar waith. Dywedodd:

We have agreed a time-limited implementation period where businesses in the UK and the EU will continue to access each other's markets on current terms and will ensure that they have to make only one set of changes... We are working at pace to ensure that all the necessary arrangements are in place for 31 December 2020

Goblygiadau Brexit i Gymru

Ar 18 Ebrill, cafwyd dadl yn Neuadd San Steffan ar effaith **Brexit ar y gweithlu milfeddygol yng Nghymru** ac arwyddocâd gwasanaethau milfeddygol i'r gwasanaethau amaethyddol a bwyd. Yn ystod y ddadl, dywedodd Dr Thérèse Coffey, Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol y DU dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig, y canlynol am bob un o'r 40 o filfeddygon swyddogol sydd dan gcontract i weithio mewn rolau hylendid cig yng Nghymru i'r Asiantaeth Safonau Bwyd:

...non-UK EU nationals. Wales also relies on EU national vets as part of its bovine TB eradication programme. We fully recognise that any future restrictions on EU migration could therefore have implications for the functioning of the food supply chain in Wales and bovine TB eradication measures. The partnership is looking at a range of initiatives, in addition to ensuring that processes are in place to secure non-UK veterinary resources, including strengthening retention of existing vets in the workforce and increasing the longer term supply of UK-qualified vets.

Ar nodyn cysylltiedig, cyhoeddodd Pwyllgor Dethol ar yr UE Tŷ'r Arglwyddi adroddiad ar effaith Brexit ar **brisiau ac argaeledd bwyd ar 10 Mai**. Canfu'r adroddiad ei bod yn anochel, y bydd prisiau bwyd, heb fargen, yn codi ac na fydd yn hawdd cymryd lle ffynonellau bwyd yr Undeb Ewropeaidd, trwy eu cynhyrchu yn y DU na defnyddio mewnfôrion o wledydd nad ydynt yn rhan o'r UE. Mae'n galw ar Lywodraeth y DU i ddatblygu polisi diogelwch bwyd cynhwysfawr ar gyfer y DU.

Ar 1 Mai, clywodd Pwyllgor Materion Cymreig Tŷ'r Cyffredin **dystiolaeth** gan George Eustice AS, Gweinidog Gwladol Llywodraeth y DU dros Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd. Yn ystod y sesiwn, atebodd Mr Eustice gwestiynau ar sut y gallai fframwaith cyffredin ar gyfer amaethyddiaeth fod. **Ymatebodd Mr Eustice:**

There is a commitment to keep the national budget at roughly £3 billion—the current level—until at least 2022. It will be important that we work out how that is allocated around the UK, so that each Administration has the funding it needs to implement its schemes and to fund a transition from the current scheme of basic payments—area payments—to wherever they want to end up.

Pan holwyd ymhellach am oblygiadau fframweithiau cyffredin y DU o ran pwerau mewn perthynas ag amaethyddiaeth sydd wedi'u datganoli ar hyn o bryd, **dywedodd Mr Eustice:**

We are working through now, and we have identified, the 15 areas where we think, either in part or in whole, there needs to be a UK-wide framework. We have established that we will achieve that UK framework through consensus, and consent will not be unreasonably withheld by the devolveds. Only as a last resort, would we act without the consent of a particular devolved Administration. Having identified those 15 areas, we are going to work through regulation by regulation.

Basically, we will identify those that need to be held in that pen, where we have to have that procedure applied that we have agreed in clause 11, and we will identify those areas that are out with that, which can go straight back to the devolved Administrations.

Ar bwnc taliadau amaethyddol ar ôl y Polisi Amaethyddol Cyffredin, **dywedodd Mr Eustice:**

...we have been clear in our consultation for England—in my discussions with the devolved Administrations I think they share this view—that, currently, there is quite a lot of dependency on the single farm payment, so while we think it is a deeply unsatisfactory system for running an agriculture policy and that we could design something far better, we do think there should be a gradual transition from the system we have got to the system we want to get to.

Yng nghyfarfod uchod y Pwyllgor ar 30 Ebrill, cafodd Mr Walker AS ei bwysu i ymrwymo i lunio cytundeb ymadael nad yw'n rhoi mantais i fusnesau Gogledd Iwerddon dros fusnesau Cymru. Mewn ymateb, dywedodd:

...we absolutely want to see the best deal for the whole of the UK and we are, as part of our broader customs and border planning work, engaging with the Welsh ports. I've met with representatives of Holyhead and Fishguard as part of that, and I know that a number of colleagues across Government have been to visit those ports in recent months. So, it is very important that they are part of the overall UK economic offer, which we want to make as strong as possible.

Fframweithiau ar ôl Brexit

Ar ddiwedd nawfed cyfarfod y Cydbwyllgor Gweinidogion ar Negodiadau'r UE (JMC (EN)) a gynhaliwyd ar 3 Mai, cyhoeddwyd bod Llywodraeth y DU a'r Gweinyddiaethau Datganoledig wedi **cytuno ar gynlluniau i gydweithio ar fframweithiau'r DU**. Bydd y cynlluniau'n cynnwys trafodaethau lefel swyddogol amlochrog mewn ystod o feysydd lle gall fod angen fframweithiau. Caiff y cynnydd ar y drafodaeth hon ei hystyried yng nghyfarfod nesaf y Cyd-bwyllgor.

Pan **roddodd Mark Drakeford AC dystiolaeth i'r Pwyllgor** ar 16 Ebrill, esboniodd rywfaint o'r gwaith sydd wedi bod yn sail i'r gwaith ar fframweithiau:

Just under 30 deep dives—formal deep dives—have now been completed. They have covered all of the areas where initial assessments

suggested that cross-UK legislative underpinning for frameworks might be needed. All of those deep dives have involved officials from all three administrations. Some deep dives have lasted for more than a day, so the amount of time is slightly longer than the number.

Esboniodd swyddog Llywodraeth Cymru sy'n cefnogi Ysgrifennydd y Cabinet fod adroddiad trylwyr yn cynnwys cytuno ar y canlynol:

the common areas for discussion and sharing a mutual understanding of the policy areas as they apply now under EU frameworks where member states have agreed to make decisions on those things at an EU level—so, understanding the parameters by which that policy operates, and then actually exploring how the four administrations are currently operating in that policy area; some of these topics, depending on their nature, get quite legalistic in the sense of which laws apply and what the actual constraints within that are—also, the extent to which there's a shared view across the administrations for continuity and a similar approach as it's currently led, and the extent to which that area is intertwined with what a future trade relationship with the EU may be, and international obligations that may apply in these areas.

Euratom

O ystyried diddordeb Llywodraeth Cymru mewn datblygu gweithfa ynni niwclear yng Nghymru, **Wylfa Newydd**, gall fod gan y Pwyllgor ddiddordeb yn y datblygiadau ynghylch **Cymuned Ynni Atomig Ewropeaidd (Euratom)** - marchnad sengl yr UE ar gyfer masnachu mewn deunyddiau a thechnoleg niwclear. Ar 20 Ebrill, trefnodd Pwyllgor Dethol ar yr UE Tŷ'r Arglwyddi fod **yr ymateb a gafodd gan Claire Perry, Gweinidog Gwladol y DU dros Ynni a Thwff Glân**, i'w adroddiad, **Brexit: Energy Security**. Yn yr ymateb, nododd Llywodraeth y DU ei hymrwymiad i orffen cytundebau newydd o ran mesurau diogelu gyda'r Asiantaeth Ynni Atomig Ryngwladol, a fydd yn manylu ar rwymedigaethau diogelu'r DU yn y dyfodol pan na fydd trefniadau mesurau diogelu Euratom yn gymwys i'r DU mwyach. O ran natur y mesurau diogelu hyn, dywedodd Llywodraeth y DU:

It is not necessary for the UK to achieve Euratom levels in order to meet our international commitments or enable trade with a range of key partners. Nonetheless, the Government has decided that it will establish a domestic nuclear safeguards regime which will deliver standards equivalent in effectiveness and coverage as that currently

provide by Euratom. It is the Government's intention to reach this higher level of safeguards as soon as possible

Dywedodd Llywodraeth y DU hefyd y bydd yn parhau i geisio cysylltiad agos ag Euratom, gan gynnwys y posibilrwydd o gydweithredu yn y dyfodol ar ddiffyg twf arfogaeth niwclear a mesurau diogelu, ac unrhyw rôl bosibl ar gyfer Euratom wrth gefnogi'r broses o sefydlu cyfundrefn mesurau diogelu ddomestig y DU ei hun.

Pan roddodd Mr Walker AS dystiolaeth i'r Pwyllgor, nododd:

The Euratom agreement obviously is a very important nuclear agreement that stands alongside the other EU treaties, and we do want to negotiate an association there, which is something for which there currently isn't a precedent outside the EU.

4. Ymateb Llywodraeth Cymru

Ar 24 Ebrill, cyhoeddwyd bod Llywodraeth Cymru wedi dod i gytundeb â Llywodraeth y DU mewn perthynas â'r Bil Ymadael ac, mewn **Ilythyr at David Lidington**, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid y bydd Llywodraeth Cymru yn dweud wrth y Cynulliad am gefnogi Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil bellach:

Although the position we have currently developed does not meet the whole of our aims I recognise that the trilateral discussion process represents very significant progress from where we started.

Ar 25 Ebrill, cafwyd **datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid yn y Cyfarfod Llawn** lle nododd fod y cytundeb "yn gam mawr ymlaen o'r cynigion gwreiddiol."

Ddydd Gwener 27 Ebrill, gosododd Llywodraeth Cymru **Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol atodol** mewn perthynas â'r Bil diwygiedig gerbron y Cynulliad. Mae'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn cadarnhau bod y newidiadau i'r Bil, yn ogystal â'r Cytundeb Rhynglywodraethol, yn ddigonol i alluogi Llywodraeth Cymru argymhell bod y Cynulliad yn rhoi ei ganiatâd.

Disgwylir i'r Cynulliad drafod y Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol sy'n gysylltiedig â'r Bil rhwng y Cyfnod Adrodd a'r Trydydd Darlleniad yn Nhŷ'r Arglwyddi.

Yn dilyn y methiant mewn nifer o gyfarfodydd y Cydgyngor Gweinidogion (Negodiadau'r UE) i ddod i gytundeb ar y Bil Ymadael, penderfynodd Llywodraeth

Cymru a Llywodraeth yr Alban gyflwyno eu biliau parhad eu hunain. Cafodd y **Bil Cyfraith sy'n Deillio o'r Undeb Ewropeaidd (Cymru)**, a driniwyd fel deddfwriaeth frys, ei dderbyn ar 21 Mawrth. Ar 17 Ebrill, yn ystod y cyfnod hysbysu pedair wythnos, cyfeiriodd y Twrnai Cyffredinol y Bil i'r Goruchaf Lys ar gyfer penderfyniad a yw o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad.

Ar 18 Ebrill, cafwyd **datganiad** gan y Cwnsler Cyffredinol i'r Cynulliad a oedd yn amlinellu ar ba sail y cyfeiriwyd y Bil gan y Twrnai Cyffredinol. Yn dilyn y cytundeb rhwng camau Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU, cymerir camau i dynnu'r atgyfeiriad yn ôl ac i ddiddymu Bil Parhad Cymru. Mae'r Cytundeb Rhynglywodraethol yn nodi'r canlynol:

As part of the implementation of this agreement, the governments agree that steps will be initiated to secure the repeal of Bills passed by the devolved legislatures as possible alternatives to the Withdrawal Bill, before the Withdrawal Bill receives Royal Assent. The governments will also ask their principal legal officers to make or support applications to the Supreme Court by consent to withdraw the references made to that Court in respect of such Bills.

Mae Llywodraeth Cymru wedi **ymrwymo** i weithio gyda'r ddwy Lywodraeth tan y funud olaf i weld a ellir gwneud rhagor o welliannau i'r Bil. Ar 3 Mai, cyfarfu'r Cydbwyllgor yn Llundain. Mae'r **datganiad i'r wasg** a gyhoeddwyd ar ôl y cyfarfod yn nodi i'r Bil Ymadael gael ei drafod, ond ni roddir rhagor o fanylion.

Ddydd Llun 30 Ebrill, cynhaliwyd Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol y Cynulliad **sesiwn graffu gydag Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid** i drafod y Bil Ymadael a'r gwelliannau y cytunwyd arnynt.